



**COLEG
CAMBRIA**

Polisi Rhyw a Chydberthnasau (SRE)

ysbrydoli • arloesi • llwyddo • inspire • innovate • succeed

Cyflwyniad/Datganiad y Polisi

Mae Coleg Cambria yn chwarae rhan ganolog wrth gael effaith gadarnhaol a pharhaus ar iechyd a llesiant ei holl ddysgwyr. Mae'r coleg yn cydnabod y gallai rhai grwpiau o ddysgwyr elwa o gael mynediad at addysg rhyw a chyd-berthynas fel rhan o'u rhaglen ddysgu.

Rhagwelir y bydd gan y mwyafrif o ddysgwyr Addysg Bellach sy'n mynychu rhaglenni'r coleg lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth o ganlyniad i gael mynediad at addysg rhyw a chydberthnasau yn y gorffennol yn yr ysgol. Ar gyfer y dysgwyr hynny, byddwn yn canolbwyntio ar Ddiogelu, Cadw'n Ddiogel ac Addysg Gymdeithasol Bersonol (ABCh) fel rhan o'u rhaglen diwtorial.

Gallai fod yn briodol i rai grwpiau o ddysgwyr gael mynediad at ganllawiau ychwanegol:

- Dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol
- Dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu difrifol (ADD)
- Dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu cymedrol (ADC)
- Dysgwyr ar raglenni Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lle bydd angen wedi'i nodi, bydd y dysgwyr yn derbyn addysg rhyw a chyd-berthynas o ansawdd uchel fel rhan o'u rhaglen.

Risg

Methu â chefnogi ac addysgu dysgwyr – sicrhau ein bod yn lleihau'r perygl o feichiogrwydd anfwriadol, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (*STIs*) a Chamfanteisio Rhywiol.

Diffiniad

Mae addysg rhyw a chydberthnasau (*SRE*) yn golygu dysgu am yr agweddau emosiynol, cymdeithasol a chorfforol o dyfu i fyny; cydberthnasau; rhyw; rhywioldeb dynol; a iechyd rhywiol. Dylai ddarparu pobl ifanc ac oedolion agored i niwed gyda'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd i gael cydberthnasau diogel, boddhaus a phleserus ac i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant rhywiol.

Nodau/Amcanion

Nod Addysg Rhyw a Chydberthnasau yng Ngholeg Cambria yw darparu pobl ifanc ar gyrsiau a nodwyd gyda'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen arnynt i gael cydberthnasau diogel, boddhaus a phleserus ac i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant rhywiol. Bydd y sesiynau sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr sy'n agored i niwed yn canolbwyntio ar Gadw'n Ddiogel a Chydberthnasau Positif. Bydd pynciau Addysg Rhyw yn cael eu trafod yn unol ag anghenion a lefel dealltwriaeth pob dysgwr.

Yn unol ag anghenion unigol a lefel o ddealltwriaeth pob dysgwr, bydd y coleg yn cefnogi dysgwyr i:

- Ddatblygu hyder a pharch tuag at eu hunain a'u chyderthnasau ag eraill.
- Deall pwysigrwydd cydberthnasau cadarn, diogel a chariadus.
- Meithrin agwedd gyfrifol tuag at cydberthynas rywiol.
- Deall y deddfau sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol.
- Cydnabod canlyniadau a pheryglon gweithgaredd rhywiol, gan gynnwys beichiogrwydd anfwriadol a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (*STIs*).
- Deall y cysylltiadau ag ymddygiadau anniogel eraill, gan gynnwys y risgiau posibl o rwydweithio cymdeithasol ar-lein.
- Cydnabod dylanwadau diwylliannol a chymdeithasol a gwrthsefyll pwysau dieisiau.
- Trafod eu hunaniaeth rywiol yn hyderus.
- Gwybod am ddulliau ac argaeledd dulliau atal cenhedlu ac atal *STIs*.
- Deall cyfrifoldebau bod yn rhiant.
- Gwybod sut i gael gwybodaeth gyson a phriodol am iechyd a llesiant rhywiol gan ystod o asiantaethau.

Darpariaeth

Bydd Coleg Cambria yn cynnig amgylchedd dysgu cefnogol lle gellir cynnal trafodaethau agored ac anfeirniadol ynglŷn ag *SRE*. Bydd amserlen *SRE* gynhwysfawr yn cael ei darparu gan staff coleg hyfforddedig a / neu ddarparwyr allanol sydd wedi'u cymeradwyo.

- Bydd myfyrwyr yn dysgu am *SRE* gan ddefnyddio dulliau sy'n darparu:
- Gwybodaeth gywir a chyson sy'n briodol i oedran wedi'i chyflwyno'n syml ac yn glir.
- Amgylchedd dysgu priodol, lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddigon diogel i gymryd rhan.
- Sicrhau bod rheolau sylfaenol ar waith ar gyfer pob dosbarth i sefydlu paramedrau clir ynglŷn â'r hyn sy'n briodol ac yn amhriodol mewn lleoliad dosbarth cyfan.

Gellir cynnwys y pynciau canlynol ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu cymedrol fel y bo'n briodol. Bydd y gwersi'n cael eu teilwra i anghenion dysgwyr unigol a lefel eu dealltwriaeth:

- Newidiadau Corfforol / Glasoed
- Cadw'n Ddiogel / Diogelwch Ar-lein
- Atal cenhedlu
- Rhyw diogel ac *STIs*
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Camfanteisio rhywiol
- Ffynonellau cyngor a chymorth

Bydd athrawon yn ceisio ateb cwestiynau cyffredinol gan ddysgwyr yn onest, gan ystyried gallu a lefel o ddealltwriaeth y dysgwyr ac yn ymdrin â chyfeiriadedd rhywiol mewn modd onest, sensitif ac anfeirniadol.

Mae'r coleg yn cydnabod gwerth cynnwys siaradwyr allanol o fewn y rhaglen *SRE* fel y bo'n briodol. Pan fydd siaradwyr o'r tu allan yn cael eu gwahodd i'r coleg, byddant yn cael gwybod am gynnwys y polisi *SRE* cyn yr ymweliad er mwyn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu cyflwyno. Os defnyddir siaradwyr allanol i gefnogi rhaglen *SRE*, bydd aelod o'r staff yn bresennol drwy gydol yr amser.

Bydd rhieni / gofalwyr dysgwyr agored i newid bregus yn cael gwahoddiad i roi caniatâd iddyn nhw gymryd rhan mewn sesiynau *SRE*. Mae croeso i rieni / gofalwyr gysylltu â'r coleg a gwneud trefniadau i weld y Cyfarwyddwr / Dirprwy Gyfarwyddwr priodol a thrafod unrhyw agweddau ar y rhaglen *SRE*. Bydd barn a safbwyntiau'r bobl ifanc yn cael eu hystyried hefyd ac mewn achosion lle mae'r rheini'n wahanol i farn rhieni / gofalwyr, bydd y coleg yn ceisio nodi a chytuno ar ddeiliant derbyniol. Bydd safbwyntiau annibynnol dysgwyr 18+ oed yn cael eu hystyried yn ofalus

Cyfrinachedd

Bydd ffiniau cyfrinachedd yn cael eu gwneud yn glir i ddysgwyr. Gellir torri cyfrinachedd yn erbyn dymuniadau'r person sy'n rhannu'r wybodaeth pan fo angen:

- pan fydd mater diogelu / llesiant yn cael ei nodi (Gweler y Polisi Diogelu)
- pan mae bywyd person mewn perygl neu os oes perygl o niwed difrifol i eraill
- pan ddatgelir tramgwyddau troseddol

Cydraddoldeb

Gwerthfawrogir pob dysgwr, eu rhieni a'u gwarcheidwaid, gwirfoddolwyr, staff a llywodraethwyr a byddant yn cael eu trin gyda pharch ac urddas. Ni fydd y coleg yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Byddwn yn gweithio ar draws cymuned ein coleg i sicrhau bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn cael ei rannu ac yn cymryd camau i sicrhau bod ein coleg yn hygyrch, yn groesawgar ac yn gynhwysol.

Cyfathrebu a Dwyieithrwydd

Bydd y Polisi hwn yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Oes y Ddogfen

Bydd y Polisi yn cael ei adolygu bob 3 blynedd.

Cynllun Gweithredu

Bydd y Swyddog Diogelu yn sicrhau y caiff y Polisi ei weithredu'n effeithiol. Bydd y coleg yn sicrhau bod hyfforddiant ac adnoddau digonol i'r holl staff sy'n ymwneud â'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion y Polisi Addysg Rhyw a Chydberthnasau.

Safonau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Bydd Swyddog Diogelu'r Coleg yn casglu'r holl adroddiadau ac yn cyflwyno ystadegau a chynlluniau gweithredu i gyfarfodydd Grŵp Diogelu'r Coleg. Nid yw'n ymarferol gosod targedau

perfformiad, ond disgwylir i dueddiadau fod ar i lawr a bydd y Grŵp Diogelu yn pennu camau gweithredu brys os nad dyma'r achos.

Cyfeiriadau

(Y Gymdeithas Cynllunio Teulu (*FPA*) www.fpa.org.uk)

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 019/2010:

Addysg Rhyw a Chydberthnasau mewn ysgolion

Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (2008)

Llywodraeth Cynulliad Cymru: Gwyddoniaeth yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru (2008)

Canllawiau i Weithwyr a Gwirfoddolwyr y mae eu gwaith yn dod â nhw i gysylltiad â Phlant a Phobl Ifanc

Bwrdd Diogelu Plant Wrecsam 2008